# Cofnodion - Y Pwyllgor Busnes

Lleoliad:

**Swyddfa'r Llywydd, 4ydd llawr - Tŷ Hywel**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 10 Gorffennaf 2018

Amser: 08.30 - 08.57

# Preifat

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau'r Pwyllgor: | Elin Jones AC (Cadeirydd)<br>Julie James AC<br>Paul Davies AC<br>Rhun ap Iorwerth AC<br>Gareth Bennett AC |
| Staff y Pwyllgor: | Aled Elwyn Jones (Clerc) |
| Eraill yn bresennol | Ann Jones AC, Y Dirprwy Lywydd<br>Manon Antoniazzi, Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad<br>Christopher Warner, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth<br>Siân Wilkins, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Phwyllgorau<br>Rhuanedd Richards, Cynghorwr Polisi i'r Llywydd<br>Gwion Evans, Pennaeth Swyddfa Breifat y Llywydd<br>Helen Carey, Llywodraeth Cymru |

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

## 2 Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Cytunodd y Pwyllgor ar gofnodion y cyfarfod ar gyfer eu cyhoeddi.

## 3 Trefn busnes

### 3.1 Busnes yr wythnos hon

**Dydd Mawrth**

- Cynhelir y Cyfnod Pleidleisio fel yr eitem olaf o fusnes.

**Dydd Mercher**

- Cynhelir y Cyfnod Pleidleisio cyn y Ddadl Fer.

### 3.2 Amserlen Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf

Nododd y Pwyllgor Busnes amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf.

Dywedodd Arweinydd y Tŷ y byddai dadl ar Raglen Ddeddfwriaethol Llywodraeth Cymru yn yr hydref, yn ystod amser y llywodraeth.

### 3.3 Amserlen Busnes y Cynulliad ar gyfer y tair wythnos nesaf

Penderfynodd y Pwyllgor Busnes ar drefn busnes y Cynulliad a chytunodd i gynnwys yr eitemau o fusnes a ganlyn ar yr amserlen:

**Dydd Mercher 18 Gorffennaf 2018 –**

- Dadl ar Adroddiad y Pwyllgor Safonau Ymddygiad 02-18 i'r Cynulliad o dan Reol Sefydlog 22.9 (15 munud)

**Dydd Mercher 26 Medi 2018 –**

- Dadl ar Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig: Cynnydd Llywodraeth Cymru o ran lliniaru effeithiau newid hinsawdd (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)

# 4 Cyllideb Llywodraeth Cymru ar gyfer 2019-20

## 4.1 Amserlen Cyllideb Llywodraeth Cymru 2018-19

Nododd y Rheolwyr Busnes y llythyr a chytunodd i ysgrifennu at y Pwyllgor Cyllid yn gofyn am ei farn ar yr amserlen ac i ddychwelyd at y mater yn eu cyfarfod cyntaf ym mis Medi.

# 5 Trefniadau Cyflwyno

## 5.1 Trefniadau Cyflwyno yn ystod Toriad yr Haf 2018

Cytunodd y Rheolwyr Busnes ar y papur.

# Unrhyw fater arall

***Biliau Aelodau***

Dywedodd y Llywydd wrth y Rheolwyr Busnes nad oedd hi o blaid cynnal pleidlais arall ar Filiau Aelodau nes ei bod yn fodlon na fyddai'n ymyrryd â llwyth gwaith deddfwriaethol y Cynulliad, gan gynnwys Biliau anllywodraethol sydd eisoes ar y gweill, a materion yn codi o Brexit, ond y byddai'n parhau i'w adolygu. Gofynnodd y Rheolwyr Busnes am bapur yn nodi amserlenni, dyddiadau allweddol a chyfnodau o bwysau ar gyfer Biliau Aelodau.

***Enwebiad ar gyfer Comisiynydd y Cynulliad***

Dywedodd Gareth Bennett wrth y Pwyllgor Busnes yr hoffai UKIP ail-enwebu Neil Hamilton fel aelod o Gomisiwn y Cynulliad. Eglurodd y Llywydd, y byddai'n rhaid i'r Pwyllgor Busnes gyflwyno cynnig i'r Cynulliad ei ystyried er mwyn i'r enwebiad fynd rhagddo.

Nododd y Rheolwyr Busnes nad oedd ganddynt unrhyw reswm i feddwl y byddai eu haelodau'n pleidleisio'n wahanol pe bai cynnig arall i enwebu Neil Hamilton yn cael ei gyflwyno, ac felly cytunodd nad oedd unrhyw ddiben i'r Pwyllgor Busnes gyflwyno cynnig o'r fath.

Gofynnodd y Llywydd i Grŵp UKIP ystyried y drafodaeth hon ac a ellid cyflwyno enwebiad amgen a fyddai'n cael cefnogaeth y Cynulliad.  Nododd y Llywydd na fyddai gan y Pwyllgor Busnes unrhyw reswm i beidio â chyflwyno cynnig yn enwebu Aelod arall o grŵp UKIP i'r Cynulliad ei ystyried.